CLILC
WLGA

Un Llais Cymru
One Voice Wales

www.wlga.cymru
www.wlga.wales
@WelshLGA

www.onevoicewales.org.uk
@onevoicewales

# Memorandwm o Ddealltwriaeth

## CLILC ac Un Llais Cymru











Hydref 2024

# Memorandwm o Ddealltwriaeth

Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth hwn yn ddatganiad o'r berthynas waith a'r bartneriaeth rhwng Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'n nodi sut y bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd a chyda'u haelodaeth i hyrwyddo a chefnogi democratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.


**Un Llais Cymru**

24c Stryd y Coleg
Rhydaman Sir Gâr
SA18 3AF
01269 595400

www.onevoicewales.org.uk

@onevoicewales

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Un Rhodfa'r Gamlas
Dumballs Road
Caerdydd
CF10 5BF
029 2046 8600

www.wlga.gov.uk

@WelshLGA



**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2013 (fersiwn 1)
Hydref 2024 (fersiwn 2)



**Hawlfraint:** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru




# Cyflwyniad

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru ar Femorandwm o Ddealltwriaeth yn 2013 er mwyn hybu partneriaeth a chydweithrediad rhwng y ddau sector statudol o lywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli buddiannau awdurdodau unedol Cymru, ac mae ganddi rôl i hyrwyddo gwell llywodraeth leol a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli pob un o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt. Mae Un Llais Cymru yn cynrychioli buddiannau cynghorau cymuned a thref Cymru, sef y corff a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo democratiaeth leol a darparu gwasanaethau gan y cyrff hyn ar lefel gymunedol.

Mae Un Llais Cymru yn cynnwys rhwydwaith o dros 670 o gynghorau sy'n aelodau ac yn eu tro, dros 7350 o gynghorwyr unigol. Mae'r aelod-gynghorau hyn yn cyfrif am dros 92% o'r cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, ac mae'r sector ei hun yn cwmpasu mwyafrif helaeth y wlad. Ychydig iawn o ardaloedd sydd ddim yn dod o dan y cynghorau lleol hyn.

Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru yn cydweithio i hyrwyddo democratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy yng Nghymru, gan annog partneriaeth a chefnogaeth ar y cyd ymhlith eu haelod-awdurdodau.

Byddant yn:

- parchu'r ymrwymiad ar y cyd i gyflawni'r canlyniadau gorau i gymunedau lleol.
- deall y gwahanol fframweithiau, strwythurau a chyfyngiadau y mae'n rhaid i'r gwahanol haenau o lywodraeth leol weithredu oddi mewn iddynt.
- cydnabod y cyd-destun gwleidyddol, deddfwriaethol ac ariannol cyfnewidiol y mae'r rhaglen ar gyfer democratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn ei llywio.
- nodi meysydd i'w gwella ar draws y sectorau er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac osgoi dyblygu swyddogaethau'n ddiangen wrth ddarparu gwasanaethau o safon.
- nodi meysydd o waith ar y cyd, lle gellir cydgysylltu capasiti ac adnoddau'n effeithiol i gyflawni gweithgarwch ategol (fel datblygu aelodau) neu waith polisi neu brosiect penodol.



# Egwyddorion

Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ar sail yr egwyddorion allweddol canlynol:

- dangos parch a dealltwriaeth o bob sefydliad ac o amgylchiadau, safbwyntiau a blaenoriaethau eu haelodaeth.
- cyfathrebu a chydgysylltu'n ystyrlon ar ran y ddau sector priodol.
- rheoli disgwyliadau a phennu ymatebion realistig a chymesur i unrhyw heriau, blaenoriaethau neu gynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gweithgarwch ar y cyd.
- cytuno ar amserlenni hylaw ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y gwaith neu yn y diwylliant o berthnasoedd sydd wedi'u cynllunio o ganlyniad i'r bartneriaeth hon.
- rhannu gwybodaeth berthnasol ac arfer da fel modd o wella effeithiolrwydd gweithrediadau, a fydd o fudd cyffredinol i gymunedau a threfi ledled Cymru.

# Partneriaeth

Mae aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru yn cyfarfod drwy'r Cyngor Partneriaeth statudol.

Bydd arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru hefyd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod meysydd o ddiddordeb, i ystyried materion strategol ynghylch llywodraeth leol ac i gytuno ar raglen barhaus o weithgarwch ar y cyd.

Bydd y Prif Weithredwyr a/neu swyddogion eraill yn cyfarfod yn rheolaidd a byddant yn cynnal deialog barhaus ynghylch rhannu gwybodaeth a mentrau polisi, yn ogystal â rheoli unrhyw raglen o weithgarwch ar y cyd.



# Gwaith ar y Cyd

Bydd rhaglen o waith ar y cyd yn cael ei hystyried a chytuno arni'n flynyddol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Bydd yn nodi buddiannau polisi cyffredin gan gytuno ar weithgareddau neu waith prosiect ategol neu ar y cyd. Cytunir ar y rhaglen weithgarwch mewn cyfarfod dwyochrog o arweinwyr y ddau sefydliad.

I gefnogi'r trefniadau cydweithio, bydd 2 gyfarfod arweinyddiaeth a 3 chyfarfod swyddog bob blwyddyn.

Cytunir yn flynyddol ar fanylion unrhyw raglen o gydweithio, ond gall gynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- datblygu siarteri gan gyfathrebu ac ymgynghori rhwng aelod-gynghorau,
- protocolau a chysylltiadau rhwng aelodau etholedig,
- hyrwyddo gwaith ar y cyd a chydweithio o fewn haenau llywodraeth leol a rhyngddynt
- ceisio osgoi dyblygu darpariaeth gwasanaeth ac archwilio i ddirprwyo a datganoli gwasanaethau ac ystyriaethau ariannol cysylltiedig ar gyfer cynghorau.

Yn ogystal â gweithio'n gytûn a pharchu a chefnogi rhaglenni ei gilydd, bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru hefyd yn chwilio am ffyrdd o gydweithio'n agosach gan ddatblygu prosiectau ar y cyd posibl neu weithgareddau partneriaeth eraill.

Un enghraifft bosibl fyddai cydweithio i ddatblygu rhaglenni hyfforddi newydd ar gyfer aelod-gynghorau.

Isod, nodir rhai enghreifftiau o waith ar y cyd sydd eisoes yn cael ei wneud a/neu sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2024/25.



# CLILC ac Un Llais Cymru Meysydd o Ddiddordeb a Chydweithio y cytunwyd arnynt 2024/26:

- Cydweithio ar gamau gweithredu sy'n deillio o'r Grŵp Tasg a Gorffen Iechyd Democrataidd (i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2024).
- Cydweithio ar gamau gweithredu sy'n deillio o raglen Ysgrifennydd y Cabinet ar fynd i'r afael â cham-drin ym maes gwleidyddiaeth.
- Parhau i weithio ar y cyd ar:
    - Raglen Iechyd Digidol Cyngor Tref a Chymuned.
    - rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
    - Grŵp Hyfforddi a Chynghori Cenedlaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr CLILC.
    - Cynllun Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru.
    - Panel Strategaeth yr Hinsawdd.
    - Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar.
- Cydweithio a Gweithio mewn Partneriaeth - seminar ar y cyd i rannu arfer; llythyr ar y cyd gan Arweinydd CLILC a Chadeirydd Un Llais Cymru yn annog cydweithio; Un Llais Cymru yn cael safle cynadledda yng nghynhadledd flynyddol CLILC yn 2024 i dynnu sylw at rôl Cynghorau Tref a Chymuned o ran darparu gwasanaethau cynaliadwy yn seiliedig ar leoedd ac i lansio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ei newydd wedd.
- Trafodaethau pellach ar:
    - rôl Cynghorau Tref a Chymuned a gwasanaethau'n seiliedig ar le.
    - datblygu Siarteri rhwng y ddwy haen.
    - mynd i'r afael â chostau etholiadol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.
    - rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn sgil y Comisiwn Gweinidogol yn 2024-25, ac is-grwpiau Ystadau Cymru wedi'u hadfer.
    - perthnasoedd rhwng Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned ar lawr gwlad.
    - annog mwy o faterion cyffredin yn y dull o adolygu ffiniau cymunedol, a CLILC ac Un Llais Cymru i gydweithio ar sicrhau cefnogaeth i gynghorau yr effeithir arnynt gan adolygiadau ffiniau.
    - CLILC yn gweithio gydag Un Llais Cymru i annog y gwaith o greu cynghorau yn yr ardaloedd hynny nad ydynt yn elwa o gyngor lleol.
    - cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach ar feysydd diddordeb presennol ar gyfer sefydliadau ac aelodau, er enghraifft, yr argyfwng costau byw. WISERD (cefnogi cyswllt cryf rhwng llywodraeth leol a byd academaidd Cymru); Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gan Un Llais Cymru; Cynhadledd Flynyddol; hyrwyddo lleoedd gwag ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned, caffael gwasanaethau gan awdurdodau lleol e.e. cyngor cyfreithiol a TG.